Hyfforddiant Busnes

Cychwyn busnes yw un o'r penderfyniadau pwysicaf y gall unigolyn ei wneud. Lluniwyd ein cyrsiau hyfforddiant busnes i ddarparu'r sgiliau a'r gefnogaeth y mae eu hangen ar entrepreneuriaid i gyflawni'r heriau sydd o'u blaenau.

Cynhelir y cyrsiau a amlinellir isod drwy'r flwyddyn yng Nghanolfan Fusnes Abertawe
Sesiwn Undydd i Gynyddu Ymwybyddiaeth - Cychwyn eich Busnes eich Hun

Mae'r cwrs undydd hwn yn rhoi cyflwyniad i "fod yn rheolwr arnoch chi eich hun":

Æ Pam cychwyn busnes

Æ Manteision ac anfanteision hunangyflogaeth

Æ Agweddau cyfreithiol ar gychwyn busnes

Æ Ffynonellau Cyllid

Æ Cefnogaeth gan Ganolfan Fusnes Abertawe

Æ Cyflwyniad i Gynllunio Busnes

Cwrs 3 Diwrnod - Cynllunio Busnes

Mae'r cwrs hwn yn darparu'r hyn y mae ei angen arnoch i gynhyrchu cynllun busnes ymarferol

ÆHunanwerthuso - cymhelliad, addasrwydd, gwybodaeth am y cynnyrch, cefnogaeth

ÆMarchnadoedd a Chystadleuwyr - ymchwil i'r farchnad, maint a thueddiadau'r farchnad, cwsmeriaid, cystadleuwyr, hysbysebu a hyrwyddo

ÆDatblygu Strategaeth Farchnata – amcanion marchnata, cynnyrch, pris, lle a hyrwyddo, gwerthu, gofal cwsmeriaid

ÆGweithrediadau – adeiladau, cyfarpar, cyflenwadau/deunyddiau, cyflogi pobl, systemau a gweithdrefnau

ÆCostio a Phrisio - costau busnes, prisio, eich cyfrifiad adennill costau

ÆCynllunio Ariannol a Gweinyddu - rhagolwg llif arian, Cyfrif Elw a Cholled, Rhagweld Gwerthiannau

ÆCyllid y Wlad, TAW, Yswiriant Gwladol, PAYE, Bancio Busnes

ÆCynllunio Busnes

Cwrs Undydd - Cadw Cyfrifon a Chyfrifon Blynyddol

Mae'r cwrs hwn yn ymwneud ag agweddau ariannol allweddol rhedeg busnes:

Æ Arweiniad ar gadw cyfrifon

Æ Sut i gwblhau Rhagolwg Llif Arian, Cyfrif Elw a Cholled

Æ Sut i ragweld gwerthiannau

Æ Sostio a Phrisio

Cwrs Undydd - Marchnata

Mae strategaeth farchnata effeithiol yn ganolog i lwyddiant unrhyw fusnes. Dysgwch sgiliau a thechnegau marchnata a sut y gallant ychwanegu at lwyddiant busnes:

Æ Cyflwyniad i Farchnata

Æ Ymchwil i'r Farchnad

Æ Strategaeth Farchnata

Cynhelir y cyrsiau hyn am ddim ar gyfer busnesau yn Ninas a Sir Abertawe.